# CANLLAW CWRICWLWM MATHEMATEG A RHIFEDD

TREES FOR CITIES

| HYDREF | GWANWYN | HAF |
|---|---|---|
| **Astudiaeth o Benin/Maia**<br>Gan ddefnyddio adnoddau naturiol yn eich Gardd Llawn Bwyd (hadau, chwyn, toriadau gwair, ffyn) a llefydd naturiol, crëwch fwgwd Benin neu strwythur teml Maiaidd. | **Oes Fictoria**<br>Ymchwiliwch i ddiet pobl dlawd oes Fictoria a gwnewch eich potes llysiau eich hun. Beth yw'r mathau mwyaf/lleiaf maethlon o botes gallwch chi eu gwneud? | **Yr Ail Ryfel Byd/Astudiaeth Leol**<br>Prosiect: Crëwch eich Gardd Llawn Bwyd 'Dig for Victory' eich hun a dylunio taflen bropaganda i annog eraill i dyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain gartref. |
| **Gwaith Map (byd-eang)**<br>Gwnewch fap sbeis o'r byd. Lleolwch y gwahanol sbeisys o gwmpas y byd a lle maen nhw'n cael eu tyfu. Dewiswch ddau sbeis a gweld a allwch chi greu'r amodau i'w tyfu yn eich Gardd Llawn Bwyd (e.e. gwair lemwn, tyrmeric, basil). | **Yr Amgylchedd Naturiol**<br>Ymchwiliwch i beth yw biom ('biome' yn Saesneg) a gweld a allwch chi ganfod unrhyw nodweddion o fiomau gwahanol sy'n bodoli yn eich Gardd Llawn Bwyd a mannau awyr agored. | **Cyfesurynnau**<br>Gan ddefnyddio arolwg ordnans o'r ardal leol, nodwch lefydd lle byddai modd tyfu bwyd. Defnyddiwch enghreifftiau o dyfu bwyd yn eich ysgol i ddadansoddi pa amodau sy'n gweithio'n dda/ddim cystal (cysgod, llygredd, trigolion gerllaw, ayb). Cofnodwch y rhain fel cyfesurynnau OS. |
| **Cerflunio**<br>Gwnewch gerflun gan ddefnyddio cynhyrchion wedi'u hailgylchu a'i arddangos yn eich Gardd Llawn Bwyd. | **Astudiaeth o Artist – William Morris, Warhol ayb.**<br>Gwnewch boster ar gyfer eich Gardd Llawn Bwyd yn arddull un o'r artistiaid rydych chi'n eu hastudio. | **Printio Sgrin**<br>Gan ddefnyddio stensiliau cerdyn neu bapur siwgr neu roleri inc – printiwch ar faneri bach ar linyn gan ddefnyddio delweddau sydd wedi'u hysbrydoli gan natur a'u harddangos yn eich Gardd Llawn Bwyd. |
| **Dylunio ac Adeiladu**<br>Dyluniwch ac adeiladwch bopty sy'n rhedeg ar ynni'r haul y gallwch chi ei roi yn eich Gardd Llawn Bwyd. Edrychwch pa rai sydd orau am gynhesu dŵr neu arhoswch tan i chi wneud cawl o'ch cynnyrch eich hun a gweld pa rai sy'n cynhesu gyflymaf. | **Technoleg Bwyd**<br>Prosiect: Dysgwch sut i wneud cawl yr hydref gan ddefnyddio cynnyrch o'ch Gardd Llawn Bwyd. Ymchwiliwch i wahanol fathau o fara a dysgwch sut i wneud bara i fynd gyda'ch cawl. Crëwch a defnyddiwch bopty solar i gynhesu'ch cawl. | **Tecstilau**<br>Gan ddefnyddio sgiliau printio sgrin, gwniwch a chreu cyfres o faneri ar linyn i'w harddangos yn eich Gardd Llawn Bwyd gyda delweddau wedi'u hysbrydoli gan natur. |
| **Dylunio Gwe**<br>Crëwch dudalen we syml am eich Gardd Llawn Bwyd. Rhowch wybodaeth gefndir am eich Gardd Llawn Bwyd, ar gyfer beth y caiff ei defnyddio, a beth fydd yn tyfu pryd. | **Ymchwil ar gyfer Ap**<br>Ymchwiliwch a dyluniwch Ap yn ymwneud â bwyta bwyd iach/adnabod gwahanol fathau o ffrwythau a llysiau. | **Golygu Fideo**<br>Tynnwch gyfres o luniau/fideos yn ystod y tymor yn dogfennu'r twf a'u cyflwyno fel rhaglen ddogfen am sut mae planhigyn yn tyfu. |
| **Y Tywydd ac Arwyddion**<br>Crëwch fap tywydd ar gyfer eich Gardd Llawn Bwyd mewn iaith dramor. Gwnewch arwyddion mynedfa ac allanfa ac arwyddion eraill ar gyfer yr Ardd Llawn Bwyd a thir yr ysgol. | **Enwau Planhigion**<br>Astudiwch enwau Lladin planhigion a pham mae gennym ni enwau Lladin ar blanhigion yn aml. Allwch chi labelu'r planhigion yn eich Gardd Llawn Bwyd gyda'u henwau Lladin? | **Arian/Rhyngweithio Cymdeithasol**<br>Rhowch yr holl iaith rydych chi wedi'i dysgu at ei gilydd a chwarae rôl yn eich Gardd Llawn Bwyd. Defnyddiwch gynnyrch go iawn i brynu a gwerthu gan ddefnyddio arian tramor: yn y farchnad, gofyn am gyfarwyddiadau, gwneud cais. |
| **Gwahaniaeth Barn**<br>Trafodwch farn 'Geiriau Diflanedig' gan Robert Macfarlane. Ydy hi'n iawn fod geiriau sy'n cynrychioli'r byd naturiol fel rhedyn, helyg a concyr wedi cael eu disodli yn y geiriadur gan eirfa dechnolegol fel band eang ac ap? Pa eiriau yn disgrifio byd natur fyddech chi'n eu cadw yn yr Oxford Junior Dictionary? | **Dw i'n Iach**<br>Ymchwiliwch ac arsylwch ar rôl mwydod a thrychfilod yn treulio deunydd organig ac yn helpu i greu pridd sy'n llawn maethynnau.<br>Cymharwch hynny â sut rydych chi'n treulio bwyd. | **Dw i'n Newid**<br>Pa newidiadau hoffech chi eu gweld yn yr Ardd Llawn Bwyd yn y dyfodol? Sut mae newid yn effeithio ar natur? Arnon ni ein hunain?<br>Pa newidiadau ydych chi wedi'u profi/fyddwch chi'n eu profi pan fyddwch chi'n symud i'r ysgol uwchradd? Pa wersi o'ch Gardd Llawn Bwyd allwch chi fynd gyda chi? |

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust